Ceisiadau ar gyfer Meithrin Ysgol Gymraeg Bro Ogwr ar agor

Dechreuad ddwyiethog i daith dysgu eich plentyn

Pennaeth: Mrs Sharon Jayne

Oes gennych blentyn a anwyd rhwng 1 o Fedi 2017 a 31 o Awst 2018? A hoffech chi'ch plentyn gael addysg ddwyieithog? Mae Ysgol Bro Ogwr yn ysgol gyfrwng Gymraeg arloesol gyda thîm o staff a llywodraethwyr profiadol sydd â disgwyliadau a safonau uchel. Cawsom ein categoreiddio'n ysgol werdd, hynod effeithiol gan Lywodraeth Cymru. Mae ein disgyblion yn ffynnu yn ein lleoliad dwyieithog, sy'n ysgogi, yn meithrin ac yn dathlu unigolrwydd pob plentyn. Daw llawer o'n disgyblion o gartrefi lle nad oes Cymraeg yn cael ei siarad ac mae'r plant yn ymgolli yn iaith a diwylliant Cymru yn gyflym, yn gymdeithasol ac yn yr ysgol.

Mae ceisiadau bellach ar agor ar-lein ar gyfer derbyniadau ysgol ar gyfer lleoedd Dosbarth Meithrin llawn amser ar gyfer Medi 2021 trwy adran 'Fy Nghyfrif' ar wefan BCBC: https://myaccount.bridgend.gov.uk/. Yn amodol ar argaeledd, efallai y byddwn hefyd yn cynnig lleoedd meithrin rhan-amser ym mis Ionawr 2022 (ar gyfer plant a anwyd rhwng 1 Medi 2018 a 31 Rhagfyr 2018) ac Ebrill 2022 (ar gyfer plant a anwyd rhwng 1 Ionawr 2019 a 31 Mawrth 2019). **Dyddiad cau ar gyfer pob cais: Dydd Gwener 26 Mawrth 2021 am 4yp**

E-bostiwch ein tîm swyddfa cyfeillgar ar admin.broogwr@bridgend.gov.uk i gael mwy o wybodaeth am yr ysgol neu i dderbyn galwad yn ôl gan ein tîm Blynyddoedd Cynnar.

Ar gyfer ymholiadau yn ymwneud â'r broses dderbyn neu drafnidiaeth ysgol, cysylltwch â'r awdurdod lleol yn uniongyrchol ar 01656 643643 neu pupilservices@bridgend.gov.uk.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at glywed gennych chi a'ch croesawu chi i deulu Bro Ogwr!